OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 No. 1215

Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018

RHAN 3

CARCASAU BUCHOL

Trwydded i ymgymryd â dosbarthu

8.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ganiatáu trwydded i ymgymryd â dosbarthu carcasau buchol drwy edrych arnynt i unrhyw berson sy'n gwneud cais am drwydded o'r fath ac sy'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei fod yn gymwys i ymgymryd â'r dosbarthu, os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y ceisydd yn berson addas a phriodol i ymgymryd â dosbarthu carcasau buchol.

(2) Caniateir i'r drwydded gael ei rhoi yn ddarostyngedig i unrhyw delerau ac amodau y mae Gweinidogion Cymru'n ystyried eu bod yn angenrheidiol at ddibenion paragraff (1).

(3) Yn ychwanegol at y pŵer i ddirymu trwydded yn yr amgylchiadau a grybwyllir yn Erthygl 4(2) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (dosbarthiadau, cyflwyniadau neu adnabyddiadau anghywir), caiff Gweinidogion Cymru atal dros dro neu ddirymu trwydded a ganiatawyd i berson o dan y rheoliad hwn—

(a) os yw'r person wedi torri unrhyw un neu ragor o delerau neu amodau'r drwydded honno; neu

(b) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw'r person sy'n dal y drwydded honno yn berson addas a phriodol mwyach i ymgymryd â dosbarthu carcasau buchol.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru'n gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â thrwydded o dan y rheoliad hwn, a'r penderfyniad hwnnw'n ysgogi hawl i apelio o dan reoliad 10, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) hysbysu'r person am y penderfyniad mewn ysgrifen;

(b) rhoi'r rhesymau; ac

(c) esbonio bod yna hawl i apelio i berson a benodir gan Weinidogion Cymru.